

Diolchgarwch

Darllen: Mathew 13:1–9

Arhoswn efo'r heuwr. Ef yw dyn y gobaith mawr. Mae'n mynd allan yn hyderus i'w faes yn y gobaith am gynhaeaf.

Mae gan yr heuwr had i'w hau. Mae'r peth angenrheidiol ar gyfer y cynhaeaf yn ei feddiant. Rwy'n cofio trafod 'pwrpas' hadau gyda dosbarth o blant bach. Ym marn y plant, roedd yr hadau wedi marw a doedd dim gobaith iddyn nhw dyfu. Roedd un plentyn yn fwy beiddgar na'r gweddill, 'Wnân nhw ddim tyfu am eu bod nhw wedi marw'. Ond eu plannu nhw wnaethon ni, ac ymhen rhai wythnosau euthum draw i'r ysgol a daeth un o'r plant i'm cyfarfod, 'Wyddoch chi'r hadau yna oedd wedi marw, maen nhw wedi tyfu!' Ydyn, maen nhw'n edrych yn farwaidd a difywyd, ond y mae gobaith y cynhaeaf yn llechu ym mhob un ohonyn nhw. Hadau gobaith ydyn nhw i gyd.

Mae'n rhaid i'r heuwr hau'r had. Hynny yw, mae'n rhaid iddo gael gwared â nhw. Os ydi'r heuwr am chwarae'n saff a chadw'r had yn yr ysguboriau fydd yna ddim cynhaeaf. Mae'r elfen o fentro yn bwysig. Gwasgaru yn y gobaith am gynhaeaf. Mae'n bur debyg y bydd, fel mae'r ddameg yn ein hatgoffa, beth o'r had yn syrthio ar y ffordd, ar y graig ac yng nghanol y drain, ond bydd peth ohono hefyd yn syrthio ar dir da ac yn dwyn ffrwyth. Mae'r gair 'mentro' yn bell o'n geirfa ni fel crefyddwyr. Rydyn ni'n gyndyn iawn o fentro. Pa mor aml y byddwn ni'n mentro yn ein dull o addoli ar y Sul? Rydyn ni fel anghydfurfwyr yn cadw'n glos iawn at y fformiwlâ, emyn – darllen – emyn – gweddi – cyhoeddiadau – casgliad – emyn – pregeth – emyn – y Fendith. Mae gennyf gof i mi droeon geisio newid trefn oedfa a chael pryd o dafod ar y diwedd, 'Dydyn ni ddim wedi arfer efo'r dulliau newydd yma; yr hen drefn sy'n gweddu i ni'. A beth am fentro i gapel neu eglwys arall yn y cylch? Na, mae'n well gennym ein seddau ein hunain yn ein capel ni. Mae'n rhaid i'r heuwr fentro a gwasgaru'r had yn y gobaith am gynhaeaf.

Ar ôl gwasgaru'r had, dydi'r heuwr ddim yn pwyso ar ei rwyfau a rhoi ei draed i fyny. Na, mae yna waith i'w wneud yn ystod oriau'r disgwyl. Beth sydd gan y Cristion i'w wneud? Efallai y dylen ni roi mwy o sylw i ddau beth. Beth am ddarllen ac astudio'r Beibl? Tybed ydi o wedi mynd yn llyfr dieithr erbyn heddiw? Mae gennym gyfieithiad o'r Beibl mewn iaith y gallwn ei deall, ac mae myrdd o esboniadau yn y Gymraeg i'n helpu i'w ddehongli. Faint o drafodaeth Feiblaidd sy'n digwydd yn ein heglwysi? Rydyn ni wedi mynd yn ddiog – parod iawn i wrando ond yn hwyrfrydig i fynd ati i astudio'r Gair. Beth am weddi a chwrdd gweddi yn ein heglwysi? Arferid cynnal cyrddau neu moddion Dechrau'r Flwyddyn a Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Ond erbyn heddiw maen nhw naill ai'n cael eu hanwybyddu'n gyfan gwbl neu fe elwir ar bregethwr i lenwi'r pulpud. Ac yn ôl pob tystiolaeth, pan eir ati i gynnal cwrdd gweddi mae'r gynulleidfa'n prinhaus. Dyma waith i ni ei wneud yn oriau'r disgwyl.

Myfyrdod pellach:

Pa mor barod ydy'ch eglwys chi i 'fentro'?

Beth ydi pwrpas ac arwyddocâd dosbarth Beiblaidd?